
# Sut i wneud torch

Edrychwch ar y fideo yn y Cwtsh Creadigol

**Deunyddiau** : Cylch torch (mae'r rhai o winwydden yn edrych yn well), gwifren flodau, cortyn, deiliach neu flodau (ffres neu sych)

**Offer:** Siswrn, torrwr gwifrau ac offeryn i docio blodau marw yn yr ardd.
Mae chwilio am ddeunyddiau yn y gwyllt yn fwy o hwyl ond dyma erthygl am y gyfraith: https://britishlocalfood.com/foraging-british-law/
Gallwch gael y deunyddiau a'r offer mewn marchnad, siop flodau ac o'r we.






Rhannwch eich deiliach yn wahanol fathau fel uchod: aeron cochion (1), dail gwyrddion (2), blodau porffor (3). Rhowch enghreifftiau o 1, 2 a 3 ar gylch y dorch a'u lapio â'r wifren flodau (heb dorri'r wifren). Ychwanegwch yr enghreifftiau nesaf o 1, 2 a 3 gan eu cadw yn yr un safle. Felly, mae 1 ar y tu mewn, 2 yn y canol a 3 ar y y tu allan. Parhewch nes bod gennych gilgant neu dorch lawn. Dyma chi wedi gorffen - llongyfarchiadau!



#CwtshCreadigol

